# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Garth Olwg**

**Campws Cymunedol Garth Olwg**
**Pentre'r Eglwys**
**Pontypridd**
**CF38 1RQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Garth Olwg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Mudiad Meithrin CYF |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Ebrill 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn gwneud cynnydd da yn y feithrinfa. Maent wrth eu bodd yn chwarae gyda'u ffrindiau a chânt ddewisiadau a chyfleoedd da i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Anogir annibyniaeth y plant yn gyson drwy gydol eu hamser yn y feithrinfa.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu rolau. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd a'r plant. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd a gaiff eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion da o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae digon o le yn yr ardaloedd chwarae dan do, ac mae ardal awyr agored fawr ar gael i'r plant sy'n cynnwys digon o adnoddau. Mae'r plant yn rhydd i ddewis yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr adeilad.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r tîm rheoli yn gryf ac yn awyddus iawn i ddarparu gwasanaeth da. Mae amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau sy'n helpu i redeg y gwasanaeth, a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Mae plant o bob oed yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn gwybod bod y staff yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Mae lleisiau'r plant yn bwysig yn y lleoliad. Caiff eu hoff bethau a'u cas bethau eu cofnodi a'u defnyddio i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, caiff y gwaith cynllunio ar gyfer pob ystafell ei wneud 'yn y foment' ac mae diddordebau'r plant yn dylanwadu ar yr hyn a gaiff ei gynllunio gan y plant ac ar eu cyfer.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo, yn hyderus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Mae'r plant yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni/gofalwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r drefn sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn iddynt. Clywsom y plant yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd am lyfr roeddent yn edrych arno, ac yn enwi'r anifeiliaid wrth iddynt droi'r tudalennau. Roeddent yn gwenu'n hapus wrth i aelod o'r staff eu canmol am enwi'r anifeiliaid yn gywir. Maent wedi datblygu cydberthnasau cadarn â'r staff gofal. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael maldod.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac iach â'u ffrindiau a'r staff yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Maent yn chwarae â'i gilydd yn hapus ac yn croesawu ymwelwyr i'r lleoliad. Daethant atom yn hyderus i ofyn beth oedd ein henwau a beth roeddem yn ei wneud yn eu meithrinfa. Mae'r plant yn dangos parch at eraill, sy'n cael ei annog yn gadarnhaol gan y staff. Clywsom y staff yn atgoffa'r plant i fod yn gwrtais, gyda'r plant yn dweud *"diolch"* wrth gael eu cinio.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Gwelsom y plant iau yn cymryd rhan mewn gweithgaredd adeiladu â blociau. Mae amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau annibynnol o ran y pethau yr hoffent chwarae â nhw. Gwelsom y plant yn mynd ati'n eiddgar i ddewis gweithgareddau o blith y dewis a oedd ar gael iddynt. Gwelsom grŵp bach o blant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd didoli pasta yn y gornel chwarae rôl a grŵp arall o blant yn gwneud printiau i greu coeden flodeuog binc gan ddefnyddio eu bysedd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Gwelsom y plant iau yn bwydo eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth ac anogaeth yn ôl yr angen. Roedd y plant hŷn yn mynd ati'n annibynnol i arllwys eu diodydd eu hunain o'r jygiau bach a oedd ar bob bwrdd yn ystod amser cinio. Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain, er enghraifft, gwelsom y plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo ar ôl chwarae yn yr hambwrdd dŵr yn golchi eu doliau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel a hybu eu datblygiad a'u llesiant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau diogelu a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae gwybodaeth am y plant ar gael yn hawdd i'r staff ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o alergeddau'r plant, eu gofynion deietegol, a'u hanghenion meddygol. Maent yn hyderus wrth gofnodi damweiniau a digwyddiadau ac wrth roi meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt yn cynnal archwiliadau o ddamweiniau a digwyddiadau er mwyn nodi tueddiadau. Nid oes unrhyw system ar waith ar gyfer cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes. Rhoddir blaenoriaeth i fwyta'n iach ac mae'r bwydlenni yn dangos bod prydau a byrbrydau iach yn cael eu darparu. Mae'r plant yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn i'w bwyd gael ei weini. Cânt eu hannog i sychu eu hwynebau a'u dwylo eu hunain ar ôl bwyta. Mae'r staff yn sicrhau bod profiadau chwarae yn yr awyr agored ar gael i'r plant bob dydd, gan gynnig manteision ymarfer corff ac awyr iach iddynt.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y plant. Maent yn trin y plant mewn ffordd garedig a phwyllog ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad priodol ar waith. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig, amyneddgar a gofalgar. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u dysgu. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Gwelsom y staff yn mynd ati mewn ffordd dyner a chlir i atgoffa'r plant y dylent rannu a chymryd eu tro wrth chwarae. Maent yn defnyddio llawer o ganmoliaeth i annog ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Clywsom aelod o'r staff yn dweud wrth ddau blentyn a oedd yn cyd-chwarae, “*chi’n rhannu, da iawn”.* Mae'r staff yn rhoi esiampl dda. Mae ganddynt gydberthnasau da ac maent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Drwy hyn, sicrheir bod y plant yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n briodol drwy'r dydd. Mae'r staff yn monitro arferion cysgu'r plant yn dda. Maent yn rhoi gwybod i'r rhieni am amseroedd cysgu eu plant drwy ddefnyddio ap electronig.

Mae'r staff yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth effeithiol er mwyn gallu nodi anghenion unigol y plant a chynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu priodol. Maent yn arsylwi ar y plant yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio gweithgareddau er mwyn cefnogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Mae systemau ar waith i fonitro a nodi unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac mae'r staff yn gweithio gydag asiantaethau allanol er mwyn cynllunio'r ffordd orau o gefnogi'r plant. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain, sy'n eu cymell i ddysgu. Gwneir defnydd cadarn o'r Gymraeg ym mhob rhan o'r feithrinfa.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi, sy'n sicrhau mai dim ond aelodau o'r staff all ganiatáu i bobl ddod i mewn. Mae'r staff, y plant ac ymwelwyr yn llofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael y feithrinfa, ac yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer y safle a'r gweithgareddau a gynhelir. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol. Mae gwiriadau a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r adran diogelwch bwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Fodd bynnag, mae angen cynnwys gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r cofnodion ar gyfer yr ymarferion tân.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'n darparu ardaloedd cyffrous a golau â digon o le ynddynt i'r plant eu harchwilio. Mae lliwiau niwtral a thawel y lleoliad a'r lluniau sydd wedi'u harddangos o'r plant a'u teuluoedd yn creu ymdeimlad cysurus o gartref oddi cartref ym mhob ystafell. Mae'r prif ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda i hyrwyddo pob maes datblygiad plant. Mae amrywiaeth bwrpasol o adnoddau, gan gynnwys eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a'r byd o'u cwmpas. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys enghreifftiau o waith celf y plant sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae’r adnoddau yn yr ardal awyr agored o ansawdd da ac yn hyrwyddo awydd y plant i archwilio. Maent yn cynnwys cyfarpar dringo, beiciau, treiciau a sgwteri a digon o le i'r plant redeg o amgylch yn rhydd. Mae'r plant yn meithrin ymwybyddiaeth o Gymru ac o'r byd a diwylliannau o'u cwmpas drwy ddathlu amrywiaeth o wyliau a dathliadau, gan gynnwys Diwrnod Santes Dwynwen, Diwali, Dydd Gŵyl Dewi a'r Nadolig. Hefyd, gwelsom luniau o'r plant yn mwynhau dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, gan flasu cyri a sawsiau melys a sur, nwdls, reis a phoppadom.

Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, unedau storio teganau lefel isel a phegiau cotiau ar gyfer eiddo'r plant. Mae nifer addas o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae'r ardaloedd hyn yn lân ac yn ffres ac mae sebon hylif a thywelion papur o fewn cyrraedd i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn gryf. Mae'r person â chyfrifoldeb yn gymharol newydd i'r rôl ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae'n cael ei chefnogi'n dda gan yr uwch-dîm rheoli. Mae datganiad o ddiben clir sy'n galluogi'r rhieni i benderfynu a yw'r lleoliad yn addas i'w plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn helpu i redeg y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd trefnus, mae'n hawdd cael gafael ar ddogfennau ac maent mewn trefn dda. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau, gan ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf a diogelu ac maent yn cael cyfleoedd da i gael hyfforddiant ychwanegol. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant, a dywedodd aelodau'r tîm wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith. Mae digon o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gydberthynas waith dda â thîm rheoli'r safle. Maent yn rhoi gwybod am unrhyw faterion, gan gynnwys gwaith i gynnal a chadw'r adeilad a phryderon sy'n ymwneud ag iechyd amgylcheddol ac ymdrinnir â nhw ar unwaith. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y tîm cynnal a chadw yn mynd i'r afael â mater y cafodd wybod amdano'n ddiweddar gan y feithrinfa.

Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys tîm cynghori Dechrau'n Deg, yr athro ymgynghorol ar gyfer addysg gynnar a'r ysgol gynradd gyfagos. Ceir cysylltiadau da â'r ardal leol hefyd. Gwelsom enghreifftiau lle roedd y plant iau wedi ymweld â'r llyfrgell leol yn ddiweddar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi meithrin cydberthnasau da a chadarnhaol â'r rhieni. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn cael adborth rheolaidd ar gynnydd eu plentyn a'u bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir i'w plant yn y feithrinfa. Dywedodd un rhiant wrthym, *"The nursery goes above and beyond for my child."* Mae amrywiaeth o systemau cyfathrebu buddiol ar waith rhwng y feithrinfa a'r rhieni, gan gynnwys adborth dyddiol rheolaidd ar lafar, galwadau ffôn a diweddariadau ar ddiwrnod eu plentyn, gan gynnwys ffotograffau, drwy ap y mae'r feithrinfa yn ei ddefnyddio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau. |
| Rhoi system ar waith i gofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes sydd gan y plant. |
| Sicrhau bod y cofnodion ar gyfer ymarferion tân yn nodi'r amser a gymerodd i wagio'r adeilad a'r nifer o blant ac aelodau o staff a oedd yn bresennol yn ystod yr ymarferion. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/05/2024